# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at WAQ23547 a WAQ23543 a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, ar 27 Mawrth 2003**

**At Nick Bourne:**

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Roger Pride, cyfarwyddwr marchnata Bwrdd Croeso Cymru:

Cyfeiriaf at gwestiynau WAQ23547 a WAQ23543 a ofynnwyd yn ddiweddar. Gofynnwyd imi roi ateb uniongyrchol i chi am y materion hyn gan fod ein prif weithredwr, Jonathan Jones, ar ei wyliau.

Mae gan Fwrdd Croeso Cymru ddwy swyddogaeth wahanol o ran cysylltiadau cyhoeddus—swyddogaeth sy'n ymwneud â'r defnyddiwr a swyddogaeth gorfforaethol. Mae'r elfen sy'n ymwneud â'r defnyddiwr o fewn cylch gwaith yr adran farchnata â'r elfen gorfforaethol o fewn yr adran cysylltiadau a materion corfforaethol.

**Y Defnyddiwr**

Amcan y swyddogaeth o ran defnyddwyr yw sicrhau sylw positif yn y cyfryngau ar gyfer Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Er mwyn gweithredu'r swyddogaeth hon yn effeithiol mae Bwrdd Croeso Cymru yn contractio gyda chwmnïau cysylltiadau cyhoeddus arbenigol yn y marchnadoedd sy'n flaenoriaeth inni.

Eu tasgau craidd yw:

- diffinio a nodi y cyfryngau y maent am eu targedu;
- annog awduron teithio i ymweld â Chymru er mwyn iddynt ysgrifennu erthyglau a chanllawiau teithio positif;
- sicrhau y caiff Cymru ei chynnwys fel cyrchfan mewn rhaglenni teithio ar y teledu ac ar y radio a rhaglenni eraill sy'n addas;
- hyrwyddo Cymru fel lleoliad addas ar gyfer ffilmio a darlledu addas;
- trefnu unrhyw weithgaredd cysylltiadau cyhoeddus a gweithgareddau ar gyfer y cyfryngau sy'n digwydd yng Nghymru; a
- dadansoddi a gwerthuso unrhyw sylw a gafwyd yn y cyfryngau yn ôl y costau o hysbysebu yn y farchnad.

Mae gennym y contractau canlynol (ffioedd blynyddol a amcangyfrifir mewn cromfachau)

| | | |
|---|---|---|
| Iwerddon | Fleishmann Hillard Saunders | (£40,000) |
| Ffrainc | Agenda Communications | (£55,000) |
| Yr Iseldiroedd | TBWA/PR | (£25,000) |
| Gwlad Belg | Green Destinations | (£20,000) |
| Awstralia | Five Star PR | (£25,000) |
| UDA | LBG Communications | (£75,000) |
| Yr Almaen | Expert PR | (£55,800) |
| Llundain | Brighter PR | (£61,000) |
| Yr Alban | Beattie Communications | (£24,000) |
| Twristiaeth Fusnes | Howell Petersen | (£16,000) |

Yn sgîl y contractau hyn, yr ydym yn denu mwy na 300 o ymweliadau y flwyddyn gan y cyfryngau i Gymru. Yr oedd gwerth y sylw a gafwyd gan y cyfryngau yn unig, y gellid ei fonitro, yn fwy na £10 miliwn y llynedd.

**Corfforaethol**

Mae'r adran gyfathrebu a materion corfforaethol yn gyfrifol am y swyddogaethau canlynol:

- cyfathrebu masnachol (hanner person);
- golygu datblygu y wefan gorfforaethol—www.wtbonline.gov.uk (hanner person);
- cyfathrebu â chyflogeion (cyfrifoldeb wedi ei rannu);
- materion cyhoeddus (cyfarwyddwr);
- cysylltiadau cyhoeddus corfforaethol (digwyddiadau, arddangosfeydd, ac ati) (1 rhan amser a hanner person);
- cysylltiadau corfforaethol â'r cyfryngau (2 berson);
- ymchwil am gynnyrch a chyhoeddusrwydd ac ysgrifennu amdanynt i'r adran farchnata (1 person); a
- y polisi iaith Gymraeg a chyfieithu mewnol (1 person).

Mae tîm o naw yn cynnwys:

- cyfarwyddwr cyfathrebu;
- cynorthwy-ydd gweithredol i'r cyfarwyddwr;
- *uwch-swyddog y wasg—yn rheoli strategaeth cysylltiadau corfforaethol y sefydliad â'r cyfryngau;
- *swyddog y wasg—ymdrin ag ymholiadau corfforaethol gan y wasg;
- swyddog hysbysrwydd—darparu cymorth o ran ymchwilio ac ysgrifennu storïau i'r adran farchnata, ysgrifennu erthyglau am Gymru, ac ati;
- golygydd ar-lein a chyfathrebu masnachol—cysylltu gyda'r diwydiant twristiaeth (gan gynnwys ysgrifennu'r cylchlythyr *Siarad Siop*) a golygu'r wefan wtbonline. Hefyd yn rhannol gyfrifol am gyfathrebu â chyflogeion;
- swyddog cysylltiadau cyhoeddus—yn gyfrifol am weithredu y polisi iaith Gymraeg, sicrhau presenoldeb y bwrdd yn rhai o brif ddigwyddiadau'r haf, trefnu lletygarwch corfforaethol pan fo hynny'n bosibl;
- swyddog cyfathrebu—yn rhannol gyfrifol am gyfathrebu â chyflogeion, trefnu presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol allweddol, cydlynu'r adroddiad blynyddol; a
- chyfieithydd—cyfieithu holl ddeunydd y bwrdd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r polisi iaith Gymraeg mewn modd cyson a phroffesiynol.

*Dyma'r unig ddwy swydd sy'n ymwneud â gwaith swyddfa'r wasg, h.y. ymdrin â holl wasg y DU ynglŷn â pholisi a materion corfforaethol Bwrdd Croeso Cymru. Nid yw aelodau eraill y tîm yn ymdrin ag ymholiadau corfforaethol gan y wasg. Cyfanswm cost staffio swyddogaeth swyddfa'r wasg yw £34,093. Dim ond un swyddfa'r wasg sydd gan Fwrdd Croeso Cymru, sydd wedi ei leoli yn y pencadlys yn Nhŷ Brunel, Caerdydd.

**Gwybodaeth ychwanegol at WAQ23554 a WAQ23555 a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 24 Ebrill 2003**

**At Nick Bourne:**

Darparwyd yr atebion canlynol gan Richard Thomas, pennaeth materion cyhoeddus Dysgu ac Addysgu Cymru.

O ran WAQ23554, mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gosod rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor Cenedlaethol i hyrwyddo dysgu ôl-16 yng Nghymru. Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn cyflogi un person i ymdrin â gwaith cysylltu â'r wasg ar sail Cymru gyfan ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith cysylltu â'r wasg o fewn y Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn cynnwys ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys:

- cynhyrchu cylchlythyr allanol;
- cynhyrchu cylchlythyr electronig misol—newyddion ELWa;
- cynhyrchu atodiad papur newydd chwarterol, 'Mae Dysgu'n Gweithio';
- derbyn ac ymateb i bob ymholiad gan y wasg;
- sicrhau hawlfraint a chynhyrchu adroddiad blynyddol y Cyngor Cenedlaethol;
- cyfrannu at wefan ELWa;
- cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer wythnos ddysgu i oedolion;
- ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus ad hoc.

Oherwydd y pwysau gwaith mawr, cefnogir ac ategir y swydd cysylltu â'r wasg gan ddau gwmni cysylltiadau cyhoeddus allanol; un yn cwmpasu'r Canolbarth a'r llall yn cwmpasu gweddill Cymru.

Mae gwaith cysylltu â'r wasg o fewn y Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn rhan hanfodol o ymdrechion y cyngor i newid agweddau tuag at ddysgu yng Nghymru ac i gynyddu faint o bobl o bob oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu.

O ran WAQ23555, yn y flwyddyn ariannol 2002-03, contractiodd y Cyngor Cenedlaethol—ELWa gyda dau gwmni cysylltiadau cyhoeddus a gwariodd gyfanswm o £129,846.93 ar weithgareddau yn ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus. Yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth, a chan y byddai'n amhriodol datgelu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, bydd cynnwys y contractau yn aros yn gyfrinachol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ychwanegol neu os hoffech gael eich briffio am ein gweithgareddau, peidiwch â phetruso cyn cysylltu â mi.